Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 11. Rhif 3] MAWRTH, 1911. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Gwyl Ddewi, 1911.

Nodion y Mis.

Y Beibl: Yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.

Ymson y Myfyriwr.

"Bywyd Iesu," gan Renan.

Y Brenin Edward VII. R.J.J.

Yr Iaith Gymraeg.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Mrs. R. Ysguborfawr; J.T., Vrondolay; J.E., Aberdar; W.E.W., Chwilog; J.H.T., British Guiana; D.D., Llanbedr.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith: fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1911. [CYF. XI. RHIF 3.

—GWYL DDEWI, 1911.—

Draw yn llysoedd llwm y coed,
Yn nhrigfanau llwyd y bryn ;
Yn aneddau gwyllt y graig,
Crwydra'r miwsig pêra' 'rioed
Fel o dalaith gobaith gwyn—
Rhyw dir hud tu hwnt i'r aig.

Hedydd gwyd i lâs y nef ;
'Mwyalch gân yng nghwrr y drain ;
Cerdd drydana fore claer ?
Chwyth y gwynt ei alaw gref ;
Deffry blodau gyda'r sain ;
Mawrth a gân ei glychau aur.

Yn lle'r eira, daeth yr ŵyn ;
Yn lle barug, blodau'r dydd,
'Roed ar fedd y gauaf erch ;
Ie'nctyd lamma ar bob twyn,
Gyda rhosyn ar ei rudd,
Gyda llygad llawn o serch.

Cadw gwyl mae Cymru fâd ;
Ymhob annedd deffry cerdd ;
Cynneu mae'r hynafol dân
Ar bob aelwyd yn y wlad ;
Gwisgo'r Hen Geninen werdd
Mae pob un drwy Walia Lân.

Hen goelcerthi'r bryniau ban,
Gwrideu eto'm gwlad a chân ;
O dan wawr erch llewyrch drud ;
Aed yn uwch ac uwch i'r lan,
Tua'r nef eich fflamau tân
Nes goleuo'r eang fyd.

S.

NODION Y MIS.

DA genym ddeall fod y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn brysur wrthi yn casglu defnyddiau tuag at y Llyfr Tonau ac Emynau i'r enwad. Cafodd Mr. Jones, nid yn unig ei ddewis gydag unfrydedd gan y Gymdeithas, ond gwnaed apêl ato i ymgymeryd at y gwaith o olygu yr emynau. Y mae wedi enill iddo ei hunan safle arbenig, fel y mae genym gwbl hyder y cawn ganddo y goreu mewn emynyddiaeth Gymreig. Nid cynllun ffol fyddai i weinidogion a lleygwyr, o ran hyny, i ddanfon i Mr. Jones haner cant neu gant o emynau garent weled yn y llyfr newydd, ond gan adael y farn derfynol, wrth gwrs, i'r golygydd.

Da genym weled fod YR YMOFYNYDD yn cael ei werthfawrogi tuallan i'n cyfundeb bach ein hunain. Fel hyn yr ysgrifena Mr. O. M. Edwards, M.A., yn "*Cymru*" am y mis hwn—

> "O Ddeheudir Cymru ni chefais ond YR YMOFYNYDD. Nid oes gylchgrawn yng Nghymru o flaen hwn o ran awch meddyliol a cheinder arddull. Gwyn fyd na fuasai yn y Deheudir fwy o rai tebyg iddo. Onid efe yw yr unig beth Cymraeg, yn gylchgrawn na phapur newydd, a gyhoeddir yn Ngheredigion Gymreig ei hanian? Paham y dylai cynifer fyw ar fwyd dieithr."

Yn y "*Christian Commonwealth*" y mae erthygl y Dr. Tudor Jones ar "Heretic y Rhein"; ofnwn ei fod wedi colli *address* "*Yr Ymofynydd.*" Rhoi hanes erledigaeth y gweinidog Jatho, o Cologne, y mae. Rhyfedd nad yw'r credoau heddyw yn gallu cadw dynion goleuedig ar yr hen lwybrau. Fe ddigwydd yr un drafferth yn Nghaerdydd, lle mae'r Parch. Oliver Bowen a *rhai* o'r diaconiaid yn methu cyd-ddeall eu gilydd; ac yn Doncaster, y mae Mr. Jones, gwrthodedig yr Annibynwyr, wedi dyfod i ryw fath o gytundeb a'r Undodiaid.

Mae'r Pab wedi cyhoeddi melldith uwchben y Priodasau rhwng Pabydd a Phrotestant, gan awgrymu nad ydynt briodasau o gwbl. Mae gwr yn Belfast wedi gadael ei wraig, ac wedi myned a'i blant gydag ef, fel nas gŵyr hi yn y byd yn mha le y maent. Mae'r enwadau Protestanaidd wedi cynal cyfarfod mawr i wrthdystio yn erbyn dylanwad y Pab, ac i ddynodi'r perygl oedd yn eu bygwth os pesid *Home Rule*. Dygwyd y pwnc ger bron y Senedd, a chafwyd

nad oedd ond "ysgadenyn coch" oedd yr Undebwyr wedi bod mor ffodus a chael gafael ynddo, ac wedi gosod lliwiau tanbaid arno—yr amcan, i wrthwynebu *Home Rule*. Fe ofala'r Senedd na chaiff y Pab ddim llywodraethu yn yr Iwerddon.

Mae rhywun dan yr enw "Methodist Calfinaidd" yn trin yr hen athrawiaethau yn bur drwsgl yn y ddau rifyn diweddaf o'r "Geninen." Gallwn feddwl eu bod fwyaf o honynt iddo ef cystal a bod wedi marw. Darllener hwynt. Yn y "Goleuad" am Chwefror 15, ceir cyfeiriad fel hyn—"Dyma mewn pedair llinell atebiad Mr. Edward Jenkins, Gwalia, Llandrindod, i erthygl "Methodist Calfinaidd" ar "Y Wybodaeth Newydd"—

> "Enbydus anwybodaeth!—nid newydd,
> Ond hen yr athrawiaeth,
> Am Dduw! Dyn! a'r modd y daeth
> Y dirion Iachawdwriaeth."

Arferai'r Eglwys seilio ei hawl i gydnabyddiaeth ar ei henaint yn fwy nag ar ei rhif; ond ymffrostia yn awr ei bod mewn rhif yn fwy nag un o'r Enwadau Anghydffurfiol. Hawlid fod ganddi hi 193,081 o aelodau. Rhifa'r cyfundebau eraill fel hyn—Annibynwyr, 175,147; Methodistiaid, 170,617; Bedyddwyr, 143,835; Wesleyaid, 40,811. Sylwer fod cyfanswm yr Anghydffurfwyr crybwylledig yn 550,280, a gellid priodoli, o leiaf, 70,000 i'r enwadau eraill, a'u cymeryd gyda'u gilydd. Y mae rhif yr Anghydffurfwyr yn agos i bedair gwaith cymaint ag yw rhif yr Eglwyswyr; ond sylfaena'r Anghydffurfwyr eu hawl i gydraddoldeb nid ar eu rhifedi, ond ar GYFIAWNDER.

Anhawdd i neb, dybiaf, i gymeradwyo'r pregethwr sydd yn dibrisio ac yn gwawdio'r sawl a gredant mewn un Duw, ac ugain swllt y bunt. Nid drwg yw mor bell ag y mae'n myn'd. Mae yn sicr yn well na phymtheg swllt y bunt. Fe dâl y fath gred un-wns-ar-bymtheg i'r pwys, ac yr wyf am i bob Undodwr edrych ati, a chadw i fyny gredit yr enwad am onestrwydd. Fe esyd un o'r apostolion bwys ar fod yn onest, yn gyfiawn ac yn dduwiol. Dylai pob Undodwr ymestyn at nod felly. Nid yw ffydd o fawr pwys, nad faint ymffrostir ynddi, i'r hwn sydd yn foddlawn ar dalu pymtheg swllt y bunt. Rhaid wrth ddwy rwyf i yru cwch crefydd, ffydd a gweithredoedd. Wrth wrando ar Paul, peidiwn cau clust i Iago, eithr dangoswn ein ffydd drwy ein gweithredoedd.

Nid drwg syniad y "*Monmouthshire Evening Post*," am Ragfyr 24, 1910, yn cyhoeddi "pregeth Crist ar y Mynydd" gyda rhagymadrodd tebyg i hyn: "Y fory yw dydd pen blwydd sylfaenydd Cristnogaeth, ac ymddengys yn dda i ni gael yr efengyl y daeth Efe i'w phregethu. Am hyny, cyhoeddwn yr oll o'r bregeth ardderchocaf a draddodwyd erioed i glywedigaeth dyn," Dygwyd y bregeth fel hyny i sylw lluaws mwy, wrth bob tebyg, na'r un bregeth arall a draddodwyd y dydd Nadolig diweddaf; ac ni synwn i ddim na chafodd ei darllen gan filoedd nad ydynt byth yn mynychu un lle addoliad. Yr unig ddieithrwch berthynai i'r peth oedd ei fod yn ymddangos mor ddieithr. Cai dynion syniad newydd am yr efengyl pe talent sylw manwl i'r Bregeth ar y Mynydd.

Joseph Cook a ddywedodd fod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi gwneuthur y byd yn un gymydogaeth, ac y dylai'r ugeinfed ei gwneud yn un frawdoliaeth. Credwn fod taith ddiweddar y Proffeswr J. L. Vaswani, M.A., drwy'n gwlad wedi bod yn help gwerthfawr yn y cyfeiriad hwnw. Edmygai pawb ei hyawdledd, ei sel a'i dduwiolfrydedd. Ei amcan mawr oedd dwyn Dwyrain a Gorllewin i adnabyddiaeth well o'u gilydd. Yr oedd llawer gan y naill i'w ddysgu oddiwrth y llall. Nid yw Vaswani ond ieuanc eto, ond credwn fod dyfodol dysglaer o'i flaen. Y mae'n awr wedi dychwelyd i'r India; gobeithiwn a chredwn y ceir clywed llawer am dano ar ol hyn.

Cyfrifir Medi 29, 1511, yn ddydd genedigaeth Michael Serfed neu Serveto, a sonir am ddathlu ei bedwar can mlwyddiant eleni. Adwaenir ef yn Nghymru, yn benaf, fel merthyr, anfonwyd i'r nefoedd mewn cerbyd o dân, John Calvin yn *driver* y cerbyd; ond credaf y gwyddom rhy fach am dano yn bersonol, a charwn gael gweled erthygl yn cynwys prif nodion ei fywyd yn *Ymofynydd* Medi. Deallwn ei fod yn ddyn mawr, a wnaeth waith mawr, ac enillodd ddylanwad mawr. Gosododd dysgyblion John Calfin gareg goffa i fyny iddo yn Champel, yn 1903, fel math o "iawn" am weithred yr hwn a osododd derfyn anamserol ar ei fywyd. Dywedir fod Serfed yn un o ysgolheigion penaf ei oes.

Pan yn meddwl am ddathlu tri chan mlwyddiant y Beibl Saesneg, yr hyn a ddylai Cymro feddwl yn benaf am dano, yw'r ffaith ei fod ef a'i iaith yn cael eu hesgeuluso yn barhaus. Cyhoeddwyd Beibl Tyndall yn 1539, ond gorfu i'r Cymro aros hyd 1567 cyn cael ei Destament Newydd, ac i William Salsburi y mae iddo ddiolch am hwnw; ac ni chafodd Feibl cyfan hyd 1580, pan y cyhoeddodd Dr.

Wm. Morgan ei gyfieithad. Cyhoeddwyd y Beibl Saesneg Awdurdodedig yn 1611, a'r Beibl Cymraeg ddefnyddir genym ni yn awr yn 1620. Cyhoeddwyd y Testament Diwygiedig Saesneg yn 1881, a'r Hen Destsment yn 1885, ond y mae'r Cymro heb ei Feibl Diwygiedig hyd y dydd hwn.

Nid oes amheuaeth nad Howel Harris a Daniel Rowland ddarfu gychwyn mudiad y Methodistiaid Calfinaidd. Fel pob diwygwyr cawsant eu rhan o erledigaeth; ond fel y dywed y ddiareb: "gwaed y saint yw had yr eglwys." Arloeswyd y tir gan Griffith Jones, Llanddowror, ac er mai offeiriad oedd efe, fe gafodd yntau ei erlid. Offeiriad hefyd oedd Peter Williams, yr esponiwr enwog, ond fe'i taflwyd allan yn 1746; ac yn ddiweddarach fe'i taflwyd allan gan y Methodistiaid am nad oedd ei syniadau ar y Drindod, yn eu tyb hwy, y peth y dylent fod. Ni thorodd y Methodistiaid eu cyssylltiad a'r Eglwys hyd 1811; dyna'r adeg y gellir cyfrif i'r enwad fel enwad ddyfod i fodolaeth. Hyd hyny, arferent gymuno yn Eglwys Loegr. Dathlir canmlwyddiant genedigaeth yr enwad eleni. Yr oedd amryw eglwysi yn myned dan yr enw Methodistiaid yn hir cyn 1811.

Pabydd a Phrotestant—rhyfedd mor wahanol ydynt yn eu syniadau, a rhyfedd mor gyndyn y deil pob un o honynt wrth ei syniadau, ie, rhyfedd pan ystyriwn ni mor brin fydd seiliau sicrwydd. Cred y Pabydd mewn nefoedd, uffern a phurdan—math o le canolog, lle y danfonir y rhai sy'n rhy brin o'r cymhwysder i fyned i'r lle da, ac yn rhy dda i fyned i'r lle arall. Gwawdia'r Protestant y syniad o Burdan. Ni ŵyr efe ond am nefoedd ac uffern, ac yn ol ei syniad ef gall dyn fod yn ddyn da iawn, ond heb fod yn ddigon da i'r nefoedd, i uffern y rhaid iddo fyned, nid oes yr un lle canol. Da genym weled arwyddion fod syniadau mwy dyngarol yn dyfod i'r golwg. Mewn dau lyfr newydd eu cyhoeddi, y naill gan Dr. A. Rowland, 1/6, a'r llall gan Dr. Paterson Smyth, 2/6, dysgir yr athrawiaeth o le canol. Wrth gwrs, nid yw'r pwnc hwn yn ein blino ni. I ni, nid lle o gwbl yw nefoedd, ac nid lle yw uffern. Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae, fŷlly hefyd eich uffern. Gan hyny, nid dau le fydd na 200, gallant fod yn anherfynol.

BWRDD YR ADOLYGYDD.

"CHWEDLAU HAMDDEN," gan y Parch. J. Tywi Jones, Y Glais. Aberdar: Swyddfa'r "*Darian*." Pris Swllt, mewn Llian—92 tud. Llyfr o Storiau doniol a dyddanus. Cymhellwn e'n wresog ar y darllenydd, gan deimlo na all lai na'i werthfawrogi.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Penod VI.--(Parhad).

Ysprydoliaeth.

Ni ddywedaf y saif pob ymadrodd nodweddir gan y tri arwydd yma o ysprydoliaeth ar yr un tir o brydferthwch ac awdurdod. Mae'r wreichionen mewn *Leyden jar* yr un mor wirioneddol yn amlygiad o drydan ag yw'r fellten adeinia ei ffordd trwy'r eangderau ganol nos; ond y mae un yn amlygiad ar raddfa lawer mwy argraffiadol na'r llall. Ni alwn y wreichionen drydanol yn y *Leyden jar* yn fflachiad mellten, er ei bod felly mewn hanfod, ac ni alwn yr holl ymadroddion hyny yn ysprydoledig, y rhai, tra yn dangos arwyddion ysprydoliaeth wnant hyny ar raddfa rhy fechan i enill ein sylw. Mae pob enaid sydd yn caru, gweddio, ac yn dewis rhwng y da a'r drwg, yn ysprydoledig; ond rhwng yr eneidiau hyn a'r enwau mawr a dysglaer hyny dywynant fel ser am bob tragwyddoldeb—Esaiah, Moses, Bwdha, Ioan, Socrates—y mae yna yr un gwahaniaeth ag sydd rhwng y wreichionen yn y *Leyden jar* a'r fellten.

Ac fel y dywedwn am olygfeydd mewn natur awgrymant mewn modd neillduol fywyd holl-gynhwysfawr, eu bod o degwch dwyfol, felly hefyd y dywedwn am feddyliau a geiriau, ac athrawon a phrophwydi ddangosant mewn modd arbenig fawredd moesol, eu bod wedi eu hysprydoli gan Dduw. Felly y dywedwn am y Beibl—o holl lyfrau'r byd efe yw y llyfr ysprydoledig; ni feddylia hyn ei fod yn anffaeledig nac yn rhydd oddiwrth gamsyniadau, eithr yn hytrach y cawn yn ei ymadroddion, fel na chawn mewn un man arall, naturioldeb dyrchafiad moesol a phwysigrwydd cyffredinol. Ond gofynir i mi eto, sut y gallaf wahaniaethu rhwng yr hyn sydd ysprydoledig yn y Beibl a'r hyn na sydd. Mae dweyd y rhaid imi ei dderbyn oll neu ei roddi oll i fyny yn gymaint o ffolineb ag a fyddai i ddweyd y rhaid i ddynion naill ai rhoi fyny gwneyd defnydd o lafur fel bwyd neu ynte ei fwyta yn ûs a chwbl. Yr unig gwestiwn i ni i'w benderfynu i ba raddau y crea ymadroddion y Beibl yr argraff ar y galon eu bod yn ysprydoledig. Gyda pha faint o nerth y bywhant y gydwybod, yr apeliant at yr hyn sydd oreu ynom ac y cymhellant ni i feddwl am Dduw. Mae yna ddau ymadrodd ochr yn ochr yn y Beibl, un o'r rhai a'm cynhyrfa i'r byw, tra mae'r llall mor farw a dirym a chorffoethyn (*mummy*) i'm teimlad i. A allaf fi, a gaf fi dderbyn un a gadael y llall? Paham lai? Nis gallaf brofi i chwi fod y ddau yn gyffelyb dda, ac nis gall neb. Yr hyn brofa calon dyn ei hun iddo

fel yn dda yw'r unig beth sydd yn dda iddo ef. Gall ei gymydog feallai ddweyd wrtho fod goleuni, gwres a bywyd nefol mewn rhyw ymadrodd. Ond os, pan yr aiff ato, y caiff nad oes na goleuni na gwres na bywyd nefol iddo ef ynddo, ni fydd ond rhagrith ynddo i geisio dweyd yn wahanol. Os bydd yn ddyn gostyngedig pwylla nid ychydig cyn dweyd nad oes dim byd yn ysprydoledig mewn ymadrodd mae eraill wedi gael yn gymhorth iddynt; ni frysia i roddi o'r neilldu fel heb fod o un gwerth iddo ef, bethau ydynt yn bresenol megys llythyrenau gwyddor ddieithr iddo. Cymer ei amser; gwna ymchwiliadau; profa allu gwahaniaethol y nodau yma o ysprydoliaeth ydym wedi bod yn ystyried. Os na saif yr ymadrodd brawf tebyg i hwn gall fod yn weddol siwr nad yw teimlad greddfol ei galon wedi ei dwyllo. Gadewch i ni gymeryd un engraifft yn unig—ymadrodd Iesu fel ei cofnodir yn Luc xxii, pan fu ymryson ymhlith y disgyblion pa un o honynt fyddai fwyaf yn nheyrnas nefoedd. "Ac efe a ddywedodd wrthynt (adnod 25) y mae brenhinoedd y cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt; a'r rhai sydd mewn awdurdod arnynt a elwir yn bendefigion. Ond na fyddwch chwi felly; eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megis yr ieuengaf; a'r penaf, megis yr hwn sydd yn gweini. Canys pa un fwyaf, ai yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd, ai yr hwn sydd yn gwasanaethu? onid yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd? eithr yr ydwyf fi yn eich mysg fel un yn gwasanaethu. A chwychwi yw y rhai a arhosasoch gyda mi yn fy mhrofedigaethau; ac yr wyf fi yn ordeinio i chwi deyrnas, megis yr ordeiniodd fy nhad i minnau, fel y bwytaoch ac yr yfoch ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, ac yr eisteddoch ar orseddfeydd yn barnu deuddeg llwyth Israel." Ni rodda y rhan gyntaf o'r ateb hwn un anhawsder naill ai i'r deall nac i'r galon. Mae mewn cydgord hollol a llawer o ddywediadau ereill o eiddo Iesu; ac nid yn unig a'i addysgiadau, eithr hefyd a'i holl fywyd a'i gymeriad. Gwyddom i'r Athraw Mawr roddi pwys mwyaf dwys ar y rhinweddau o ostyngeiddrwydd a gwasanaeth. Trwy olchi traed ei ddisgyblion gweithiodd allan ger eu bron ddameg darawiadol, fel pe tae, nas gallant byth anghofio. Unwaith o'r blaen, pan oedd yr un ymrafael wedi codi yn eu plith, ceryddodd ei ddisgyblion trwy gyfrwng plentyn bach. "Y mwyaf yn eich plith chwi bydded megis yr ieuengaf; a'r penaf, megis yr hwn sydd yn gweini. Yr ydwyf fi yn eich mysg fel un yn gwasanaethu." Ond yna fe ganlyn y geiriau, "Ac yr wyf fi yn ordeinio i chwi deyrnas, fel y bwytaoch ac yr yfoch ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, ac yr eisteddoch ar orseddfeydd yn barnu deuddeg llwyth Israel." Beth ydym i wneyd o'r fath ddywediad? Mae yn hollol anghysson a'r oll o'r gweddill ddywed. Ymddengys i mi nad yw gostyngeiddrwydd yn angenrheidiol ond am enyd fer; byddwch yn amyneddgar ac yn ostyngedig yn awr, yn y fan bydd i chwi gael arglwyddiaeth ac eistedd ar orseddau fel barnwyr llwythau Israel. Ond y mae gostyngeiddrwydd a gwasanaeth yn rinweddau yn mhob man ac yn mhob lle, yn y nefoedd yn ogystal ag ar y ddaear; ac nid yw yn bosibl y golygai Iesu y ca'i gostyngeiddrwydd ei gwobr ryw

ddydd trwy gael ei chyfnewid am reolaeth a gallu. I'r gwrthwyneb, 'roedd yn hollol groes i'r fath feddyliau. A yw hwn, ynte, yn ymadrodd ysprydoledig o enau Iesu, neu wedi ymlithro i mewn i'r hanes y mae o ffynonellau ereill? Gadewch i ni ei brofi trwy y tri nòd o ysprydoliaeth. Ni ddywed neb ei fod yn ymadrodd nodir gan naturioldeb, canys nid oedd ond adsain o'r deyrnas ddaearol, fydol, a'r hon y dallai ac y twyllai'r disgyblion eu hunain mor barhaus, megis â hydwel (*mirage*) y diffaethwch, a'r hon gondemniai'r Iesu mor barhaus. Ni fyn ef wneyd dim â theyrnas yn yr hon y mae gorseddau a lleoedd, a throsodd a throsodd drachefn mae'n gorfod eu adgofio mai "teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae." A nodir ef gan ddyrchafiad moesol? Na, mae mor bell o fod felly fel y gollyngir ni i lawr ar unwaith gan y geiriau hyn i raddfa iselach o feddwl ac o deimlad, a thrwyddynt dygir elfen i fewn sydd yn wir yn anfoesol—yr addewid am wobr ac attaliad dyfodol am ddyoddefaint yr iselhad presenol. Yn ol yr addysg hon, nid daioni i'w geisio er ei fwyn ei hun, yn dwyn ei wobr a'i wynfyd ei hun ganddo, yw gostyngeiddrwydd; eithr y mae i'w ddyoddef fel esgynfaen i arglwyddiaeth falch." "Yn eistedd ar orseddfeydd yn barnu deuddeg llwyth Israel." A yw o gymhwysiad cyffredinol? I'r gwrthwyneb, mae yn gul, esgymunol, lleol ac Iddewaidd. Gwyddom beth oedd delfrydau a disgwyliadau yr Iddewon yr amser hwnw. Cawn fod y delfrydau a'r disgwyliadau hyn yn llanw meddyliau y disgyblion. Gwyddom hefyd nad oedd iddynt un lle yn meddwl yr Iesu. Ac eto, yma cawn Iesu yn cael ei gofnodi fel yn adrodd ar ail law ddisgwyliadau oeddynt yn hollol gynefin i'r Iddewon. Pwy gasgliad allwn dynu ond yr un nad yw y geiriau hyn yn rhan o'r hyn ddywedodd yr Iesu o gwbl, gan eu bod mor anghydweddol a'r oll arall ddysgodd, ac a'i holl gymeriad, fel ag i fod yn achos poen i'w gydgysylltu a'r cyfryw? Cynhwysant un o'r syniadau Iddewig hyny ydynt wedi diraddio yr eglwys ac wedi cynyrchu penboethni tebyg i eiddo'r *Fifth Monarchy men* ac ereill—engreifftiau addysgiadol o "deyrnasiad y saint." Ac os gelwir yr arferiad yma o wahaniaethu a dewis rhwng un ymadrodd a'r llall yn ddetholiaeth, adgofiaf chwi am ateb braidd yn drwstan roddwyd unwaith gan Carlyle i gyhuddiad o ddysgu holldduwiaeth—"'Dwy'n hidio dim pe bae yn grochan-dduwiaeth, os yn wir."

Prawf penaf ysprydoliaeth unrhyw ysgrythyr yw ei gallu i gyffwrdd a chalon gyffredinol yr hil ddynol. Gall fod mai Dafydd yw awdwr y drydedd-salm-ar-hugain, a gall hefyd beidio; ond gall pawb deimlo gwirionedd ac ysprydoliaeth y geiriau: "Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf." Dywedir wrthyf fod Ioan wedi ysgrifenu yn ei epistol, "Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw; oblegid Duw, cariad yw." Cwyd dau ofyniad ar hyn—yn gyntaf, a ddywedodd Ioan y geiriau? ac yn ail, a ydynt yn wir? Yn awr, nis gwn a ddywedodd Ioan hwy ai peidio; nid oes genyf un ffordd i wybod; nid oes genyf ond y traddodiad yn yr hen gofnod yma. Ond beth am hwnw? A yw yn wir? I mi nid yw o un gwahaniaeth pa un a ddywedodd

Ioan hwy mewn *unrhyw* ysgrifen saif yn ei enw, maent yr un mor dda ac mor wir, pwy bynag a'i dywedodd. Credaf mai efe a'i dywedodd; ond os gallwch brofi i mi na wnaeth hyny, a dangos imi'r adnod hon yn ei epistol gael ei gosod i mewn yn y drydedd ganrif, neu mewn amser diweddarach, hyd yn oed, ac nad yw yn rhan o'r Beibl o gwbl, ni wna hyny un gwahaniaeth: dywedaf ei bod yn ysprydoledig pwy bynag a'i dywedodd. Apelia ataf a theimlaf ei gwerth; cyfateba i'r goreu sydd ynof, ac mae ynddi y nodau o naturioldeb, o ddyrchafiad moesol ac o arwyddocâd cyffredinol.

"There is, we know, one primitive and sure
Religion pure,
Unchanged in spirit, though its forms and codes
Wear myriad modes—
Contains all creeds within its mighty span
The love of God displayed in love for man."

EMYN

87887 ar y dôn "Windermere" (*Bristol Tune Book*), neu "Angels Holy," rhif 76 (*Hymns and Choral Songs*).

Chwi angelion yr uchelion
Cenwch fawl i'r Arglwydd Ior;
Nef a dae'r mawrhewch eich awdwr,
Ddyn ar ddelw dy Greawdwr,
Cenwch, cenwch fawl i'r Ior.

Haul a lloergain, hwyr a phlygain
Serlog demlau'r asur nen,
Wlith a gwlaw a gwyntoedd nerthol
Brys-genhadon y Tad nefol,
Molwch Ef, yr hwn sydd ben.

Fryniau cribog eir-gopaog
Yn ymestyn fry i'r nef;
Llethrau serth a moelydd llwydion,
Goedydd gwyrdd a dolydd gleision,
Cenwch, cenwch iddo Ef.

Ruawg Werydd hen, aflonydd,
Greigiau serth uwch berw'r lli,
Dònau mân gusana'r tywod
Ar y traeth, wrth fyn'd a dyfod,
Cenwch, cenwch i'n Duw ni.

Nant risialog, lifa'n frysiog
O'r pell fynydd tua'r môr;
Ffynon groew yn bwrlymu
Dyfroedd clir o'r graig i fynu,
Cenwch, cenwch yn un cor.

Holl breswylwyr dae'r ac awyr,
A thrigolion moroedd maith;
Blant yr anial, bererinion,
A pher gorau'r temlau gwychion
Molwch Ef mewn melus iaith.

Mawl a'th erys, Dad haelionus,
Am dy gariad mawr i ni;
Tra gall enaid uef-adeinio,
Tra gall tafod beraidd seinio,
Molwn a chlodforwn Di.

J. S. Blackie (*Cyf.* J. Islan Jones).

YMSON Y MYFYRIWR.

Beth yw tynged dyn? Pa un yw y ffordd iawn a'n harweinia ati—i'r sylweddoliad cyflawnaf posibl o honi?

RHOI ATEBION I'R GOFYNIADAU HYN—

dyna geisia pob crefydd wneud—dyna y rheswm penaf dros ei bodolaeth. Nis gwaeth pa enw roddir i'r grefydd, nac ychwaith beth yw ei ffurfiau allanol—Cristionogeeth, Mahometaniaeth, Bwdhiaeth—dyma eu hamcan—rhoi atebion i'r gofyniadau a enwyd. O braidd y mae angen galw sylw at amrywiaeth yr atebion roddir ganddynt. Mae'r amrywiaeth hwn yn amlwg hyd yn nod tufewn i ffiniau'r byd Cristionogol. Dyna y rheswm penaf dros fodolaeth yr amrywiol enwadau Cristionogol — yr amrywiaeth yn eu hatebion i'r gofyniadau uchod a'u cyffelyb. Gofynwch i un blaid o Gristionogion pa un yw y ffordd iawn i sylweddoli tynged bywyd, yr ateb fydd

"DEWCH GYDA NI;

credwch fel yr ydym ni yn credu; gwnewch fel yr ydym ni yn gwneud; nid oes ffordd arall ddiogel ond yr un yr awn ni ar hyd-ddi." Rhowch yr un gofyniad i blaid arall, ac fe gewch yr un fath ateb. Y mae pob plaid yn sicr yn ei meddwl ei hun mai ei ffordd hi yn unig sydd iawn—yw y ffordd feraf, mwyaf cywir, at y nod. Nid wyf yn ysgrifenu fel hyn mewn yspryd beiddgar. Yn wir, y mae ynof fwy o edmygedd o'r gogwydd meddwl hwn a welir mor gyffredin nag o anhoffder o hono, oherwydd y grediniaeth drwyadl hon yn iawnder ei dulliau hwy o edrych ar faterion bywyd ysprydol dyn sydd wedi eu galluogi—sydd wedi eu hysgogi—i wneud y gwaith ardderchog y maent, bob un o honynt, wedi wneud. Y mae yn Nghymru heddyw amryw enwadau lluosog eu nifer. Dyna'r Methodistiaid, er enghraifft; gofynwch i'r Methodist pa un yw'r ffordd iawn i'r bywyd, fe'ch etyb mai'r ffordd a ddangosir ganddynt hwy ydyw. Dyna'r Anibynwr, y Bedyddiwr, y Wesleyad, a'r Eglwyswr; eto, y mae ateb pob un o'r rhai hyn yr un peth—dewch gyda ni, a byddwch yn iawn. Ac fe gredant hyn a'u holl feddwl a chalon—cred pob o honynt mai'r ffordd yr änt hwy trwyddi yn unig sydd iawn. A'r grediniaeth hon—y grediniaeth drwyadl hon—sydd wrth wraidd eu hymdrechion clodfawr

I GODI CYMRU

o'r cyflwr o anwybodaeth ac anfoesoldeb isel a dygn yr oedd ynddo i'r cyflwr y mae ynddo heddyw. Nid yw cyflwr Cymru eto yr hyn ddymunem iddo fod: y mae yn mhell o hyny. Ond gwyr pob un sydd gydnabyddus â hanes Cymru am y pedair neu bum canrif ddiweddaf mai ffrwyth llafur yr enwadau crefyddol ydyw cyflwr Cymru sydd. Dygir tystiolaeth gan hanes yn ei holl gysylltiadau—gwleidyddol, cymdeithasol, crefyddol — nas gellir gwneud un daioni gwerth son am dano oddieithr fod y grediniaeth hon yn iawnder achos yn meddianu dyn. Dyna pam yr edmygaf yr yspryd haerdybiol y soniais am dano—am ei fod yn ysgogydd i ymdrech. Ond ar ol dyweyd hyn, y mae'r gofyniad yn aros heb ei ateb—

PWY SYDD IAWN?

Gan bwy y mae'r ffordd iawn? Ar un olwg, ymddengys fel tu hwnt i bosibilrwydd fod pob un o honynt—pob un o'r pleidiau i'r rhai y mae'r byd Cristionogol wedi ymranu—yn iawn. Pan y metha dau ddyn gydweled yn nghylch rhyw fater, naturiol yw'r casgliad fod un o honynt o leiaf yn gamsyniol. Gall y ddau fod yn gamsyniol, ond ymddengys allan o'r cwestiwn i'r ddau fod yn iawn. Dyna fel yr ymresymwn yn ddiau mewn perthynas i enwadau a phleid-

iau. Nis gall dwy blaid neu ddau enwad fod yn iawn pan y gwahaniaethant mewn cred neu egwyddor neu ymddygiad. Rhaid i un o honynt, fel yr ymddengys i ni, fod yn gamsyniol; a gall y ddau fod felly. Y mae'r dull hwn o edrych ar y mater yn ein gwthio yn mhellach oddiwrth ateb i'n gofyniad yn hytrach na'n dwyn yn nes ato. Pwy, ynte, sydd iawn? Gan bwy y mae'r ffordd iawn? Yr unig ffordd y medraf fi ateb y gofyniadau hyn yw—

FOD POB UN O HONYNT YN IAWN;

fod y ffordd iawn gan bob un o honynt. Y mae'r dull hwn o ateb, efallai, yn ymddangos dipyn yn anghyson. Ond methaf weled yn mha ddull arall y gellir ei ateb. Y mae'r gwirionedd fel y mae ynddo ei hun heb ei ddatguddio eto—y mae tuhwnt i allu meddyliol cyfyng dyn i'w gael allan. Y mae ein galluoedd yn rhy gyfyng, ein golygon yn rhy wan, i'w gwneud yn bosibl i ni i weled dim rhagor na chyfran o'r gwirionedd. Ac ni fedr neb—ni ddisgwylir ar neb—wneud rhagor na defnyddio'r gwydrau y mae efe wedi ei donio â hwynt yn ei ymchwil am y gwirionedd.

BETH ALLWN NI WNEUD

yn ngwyneb hyn? Ni allwn wneud dim yn rhagor na hyn — bod yn ffyddlon a dyfal yn ein hymchwil am y gwirionedd. Ar ol gwneyd hyn, beth bynag fydd y gwirionedd ddatguddir i ni,

DYNA FYDD IAWN I NI—

dyna fydd iawn i bob dyn Y mae hyn, efallai, yn taflu ychydig oleuni ar y sylw wnaethum eisoes—fod pob un o'r pleidiau neu'r enwadau yn iawn. Os mai trwy wydrau Methodistaidd, neu Annibynol, neu Fedyddiol, neu Eglwysol, neu Undodol, y gwelaf fi yr ateb i'r gofyniadau awgrymir gan fywyd, dyna (ac nid dim arall) sydd wirionedd i mi. Y mae yn hen bryd rhoi i fyny

TAFLU CERYG Y NAILL AT Y LLALL,

a phriodoli cyfeiliornadau i'n gilydd. Yr ydym i gyd—pob enwad o Gristionogion—yn byw mewn tai gwydr. Ni welir y gwirionedd gan neb o honom ond yn rhanol ac ammherffaith. Pa faint bynag o wirionedd sydd genym (neu a dybiwn sydd genym), glynwn wrtho, a meithrinwn ysbryd goddefgarwch at bob ffurf arall o'r gwirionedd. Dyna sydd ac a fydd iawn i ni. Y mae pob ffordd sydd yn arwain at ddaioni, pob ffordd hyd ymylon yr hon y mae daioni yn blodeuo, pob ffordd sydd yn arwain dyn i fyny o'i gyflwr isel yn nghyfeiriad y dyn perffaith fel y mae yn yr Iesu—y mae pob ffordd o'r fath yn ffordd iawn.

MYFYRIWR.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD XII. *(Parhad)*—TEYRNAS DDUW FEL DYFODIAD GALLU Y TLODION.

Fel pob dyn mawr, yr oedd Iesu'n caru'r bobl gyffredin, ac yn teimlo yn gartrefol yn eu cwmni. Yn ol ei feddwl ef, i'r tlodion y gwnaed yr Efengyl; iddynt hwy y daeth a'r newyddion da o lawenydd mawr. Cyfeillion dewisol ganddo oedd y rhai hyny a sarheid gan Iddewaeth uniongred. Cariad at y bobl, tosturi dros eu hanallu, serch arweinydd gwerin, sy'n teimlo yspryd y dorf yn bywhau o'i fewn ac yn adnabod ei hun fel ei deonglydd naturiol; fflachiai y rhain oll ar bob achlysur

yn ei weithredoedd a'i ymadroddion.

Yn wir yr oedd y ddeadell ddewisedig yn dra chymysg, ac yn dueddol i beri syndod i'r moesegwr sy'n dal at y llythyren. Cyfrifai yn ei mysg rai personau na fai'r Iddew a feddai radd o hunan-barch yn dewis ymgyfathrachu â hwy. Efallai fod Iesu yn teimlo o fewn cylch fel hwn, lle nis ffynai rheolau cyffredin cymdeithas, mwy o ddeall a mwy o galon nag yn y dosbarth canol, gyda'i goeg-ddysg a'i ffurfioldeb a'i foesoldeb allanol. Yr oedd y Phariseaid, drwy roddi gorbwysigrwydd ar orchymynion Moses, wedi myned i gredu y llychwinid hwy drwy gyffyrddiad a phersonau llai manwl na hwy; mewn perthynas a bwyta, yr oeddynt yn dod yn bur agos i arferion plentynaidd un o lwythau yr India. Gan ddirmygu yr agwedd hon ar grefydd, oedd yn ei feddwl ef mor druenus o gamsyniol, hoffai Iesu fwyta gyda rhai a ddioddefaint dan y fath ddeddf. Gwelid yn eistedd gydag ef wrth y bwrdd rai a ystyrid o fuchedd ddrygionus, a hyny o bosibl am na chymerent ran yn seremoniau y gau-ddefosiynol. Rhuai y Phariseaid a'r doctoriaid yn erbyn ei ymddygiad gwarthus. "Gwelwch" meddai hwy, "gyda pha fath ddynion y mae yn bwyta!" Ond yr oedd gan Iesu atebion cyfrwys a gythruddent y rhagrithwyr. "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion," neu "Fa ddyn o honoch a chanddo gant o ddefaid, ac os cyll un o honynt, nid yw yn gadael y namyn un pum ugain yn yr anialwch, ac yn myned ar ol yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo efe hi? Ac wedi iddo ei chael, efe a'i dŷd hi ar ei ysgwyddai ei hun yn llawen," neu, "Mab y Dyn a ddaeth i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid." Neu eto, "Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch," &c. Yn olaf dameg brydferth y Mab Afradlon, lle y dangosir fod gan yr hwn a syrthiodd fath o hawlfraint i'n serch rhagor yr hwn a fu erioed yn gyfiawn. Dynesai ato ef yn rhydd fenywaid gweinion a syrthiedig, wedi eu synu gan gymaint swyn, a chan brofi am y tro cyntaf erioed atdyniad rhinwedd. Synent na fai ef yn ei gwthio i ffwrdd. "O," meddai'r puteiniaid yn eu mysg eu hunain, "nis gall fod hwn yn broffwyd; oblegid, pe bae, gwybuasai mai pechadures yw yr hon sydd wedi ei gyffwrdd." Atebai Iesu gyda dameg yr echwynwr yn maddeu i'w ddyledwyr eu dyledion anghyfartal, ac ni phetrusai ddewis rhai oedd a mwyaf o ddyled arnynt. Ni roddai werth ar sefyllfa'r enaid ond yn ol y cariad a'i symbylai. Yr oedd benywod a'u calonau yn llawn dagrau, rhai a ogwyddid at ostyngeiddrwydd gan eu pechod, yn fwy agos at ei deyrnas ef na'r personau hyny o natur gyffredin, nad oedd fawr ddiolch iddynt yn aml na fuasent wedi syrthio. Hawdd deall, ar y llaw arall, modd y tynid yr eneidiau tyner hyn ato gyda serch angerddol, gan eu bod yn cael hon yn ffordd hawdd i adenill* eu cymeriad.

Yn hytrach na cheisio lleddfu'r anesmwythder a berai ei ddiystyrwch o deimladau cymdeithasol yr oes, yr oedd fel pe'n cymeryd pleser yn eu cyffroi. Erioed ni ddarfu neb arddangos y fath ddirmyg at y "byd," —amod pethau mawr a gwreiddioldeb mawr.

Ni faddeuai i'r cyfoethog, ond pan fai'r cyfoethog, oherwydd rhyw ragfarn, dan sarhad cymdeithas. Gwell o lawer oedd ganddo bersonau o fuchedd amheus a dderbynient ond ychydig ystyriaeth ar law yr arweinwyr uniongred. "Yn wir, meddaf i chwi, yr â y publicanod a'r puteiniaid i mewn i Deyrnas Dduw o'ch blaen chwi. Canys daeth Ioan atoch yn ffordd cyfiawnder, ac ni chredasoch; ond y publicanod a'r puteiniaid a'i credasant; chwithau yn gweled, ni edifarhasoch wedi hyny, fel y credech ef." Hawdd deall teimlad pobl broffesent foesoldeb gorfanwl a llym, pan yr edliwid iddynt nad oeddynt

* Cyfieithad rhydd o'r Ffrancaeg.

yn dilyn yr esiampl a roddid iddynt gan "ferched glân" yr heolydd.

Yn ei allanolion yr oedd yn hollol ddiymhongar, heb ddim meudwyaidd yn ddull o fyw. Nid oedd yn ffoi rhag llawenydd; ai yn ewyllysgar i wleddoedd priodasol. Gwnaeth un o'i wyrthiau er mwyn lloni'r wledd mewn tref fechan. Yn y Dwyrain cymer priodas le yn yr hwyr. Dug pob un lusern; ac y mae effaith y goleuadau'n myn'd a dod yn ddymunol iawn. Hoffai Iesu olygfa lon a bywiog fel hon, a thynai oddiwrthi ddamegion. Yr oedd ei ymddygiad, o'i gymharu ag eiddo Ioan Fedyddiwr, yn peri tramgwydd. Un diwrnod pan oedd disgyblion Ioan a'r Phariseaid yn ymprydio, gofynwyd iddo, "Paham y mae disgyblion Ioan a'r Phariseaid yn ymprydio, ond dy ddisgyblion di nid ydynt yn ymprydio? A dywedodd Iesu wrthynt, A all plant yr ystafell briodas ymprydio, tra fyddo y priodasfab gyda hwynt? Tra fyddo ganddynt y priodasfab gyda hwynt, ni allant ymprydio. Eithr y dyddiau a ddaw, pan ddygir y priodasfab oddiwrthynt; ac yna yr ymprydiant yn y dyddiau hyny." Yr oedd ei loniant tyner yn tarddu allan beunydd mewn syniadau byw, a dywediadau serchog a ffraeth-bert. "I bwy gan hyny" meddai, "y cyffelybaf ddynion y genedlaeth hon? Ac i ba beth y maent yn debyg? Tebyg ydynt i blant yn eistedd yn y farchnad, ac yn llefain wrth eu gilydd ac yn dywedyd,

> Canasom bibau i chwi,
> Ac ni ddawnsiasoch;
> Cwynfanasom i chwi,
> Ac nid wylasoch.

Canys daeth Ioan Fedyddiwr, heb na bwyta bara, nac yfed gwin; a chwi a ddywedwch, Y mae cythraul ganddo. Daeth Mab y Dyn yn bwyta ac yn yfed; ac yr ydych yn dywedyd, Wele ddyn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid. A doethineb a gyfiawnhawyd gan bawb o'i phlant."

Tramwyodd felly drwy Galilea yn nghanol lloniant parhaus. Marchogai ar asyn, creadur, yn y Dwyrain, sydd dda a sicr i drafaelio ar ei gefn; a'i lygad da, a'i amrant flew hir cysgodol, yn meddu llawer o dynerwch. Weithiau cylchynid ef a rhwysg gwledig gan ei ddisgyblion, ar gost eu dillad, a daenent yn garped dano, ar yr asyn a farchogai, neu ar y ddaear a gerddai. Pan ai i mewn i dŷ; yr oedd yn achlysur llawenydd a bendith. Arosai yn y pentrefydd a'r ffermydd mawrion, lle y derbyniai groesaw o'r cynhesaf. Yn y Dwyrain, pan êl dieithrddyn i mewn i dŷ, daw ar unwaith yn lle cyhoeddus. Ymgynull yr holl bentref yno; goresgynir y lle gan y plant; gyr y gweision hwynt ymaith, ond deuant yn ol yn ddiaros. Nis mynai Iesu i'r gwrandawyr syml hyn dderbyn trinaeth drwsgl. Perai iddynt gael eu dwyn ato; a chymerai hwynt yn ei freichiau. A'r mamau wedi eu calonogi a'r fath groesaw, a ddygent eu babanod ato, fel y cyffyrddai a hwynt. A gwragedd a ddeuent ato, i dywallt olew ar ei ben, a pheraroglau ar ei draed. Weithiau anfonid hwy ymaith gan y disgyblion, am eu bod yn rhy eger; ond cywirid bai ei ddisgyblion gorselog gan Iesu, oblegid carai hen arferion, a phob peth a ddynodai symlrwydd calon. Noddai neb a fynai ei anrhydeddu ef. A mynai'r gwragedd a'r plant ei addoli. Dyna'r bai a fwrid arno amlaf gan ei elynion, sef ceisio tynu'r bodau gweinion hyn oddiar eu teuluoedd.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae y casgliad blynyddol yn ddyledus yn awr, a hyderwn y bydd i'r ysgolion ei wneyd yn ddioed, a'i ddanfon i Mr. D. Saunders Davies, Felinfach, S.O., Cardiganshire. Rhoddir gwybod yn y rhifyn nesaf ddyddiad yr Arholiad; gobeithio fod parotoi diwyd ar ei chyfer.

Y BRENIN EDWARD VII.

Ganwyd Tachwedd 9, 1841.
Bu Farw Mai 6, 1910.

[*Papyr a ddarllenwyd yn Ebenezer, Trecynon, Aberdar, ar ddydd angladd y Brenin Edward VII.*]

Rhywbeth tua haner can' mlynedd yn ol (1854) yr oedd y Lord Justice Talfourd yn anerch y Grand Jury yn Mrawdlys Stafford, pan y sylwyd arno yn ddisymwth yn petruso ac yn stopio, a chafwyd ei fod wedi marw. Y geiriau diweddaf a ddyferodd dros ei wefusau oedd y rhai hyn:—Pe gofynid i mi beth ydyw angen mawr cymdeithas, er mwyn dwyn dosparth yn nes at ddosparth, mi ddywedwn mewn un gair, yr angen mawr yw

Cydymdeimlad.

Mae ein Brenin Edward wedi marw, gan adael gweddw a phlant ar ei ol. Y mae dros saith ugain o lowyr Whitehaven wedi marw, ac wedi gadael gweddwon ac amddifaid ar eu hol--angel du Rhagluniaeth wedi talu ei ymweliad diduedd a phalas y brenin ac a bwthyn y tlawd. Y mae galar cyffelyb yn y ddau le, a chalonau gwlad gyfan wedi myned allan mewn cydymdeimlad. "One touch of nature makes the whole world kin."

O ddyfnder ei chalon ddrylliedig danfonodd y Frenines lythyr allan yn dadgan ei diolchiadau cynes i'w diweddar ddeiliaid am eu cydymdeimlad gwresog â hi yn ei thrallod mawr, a cheisiodd ganddynt gofio am dani yn eu gweddiau* Yn ei thristwch mawr ni anghofiodd y weddw Alexandra ddim o'r trueiniaid yn Whitehaven, bron yn gyntaf o bawb dangosodd ei chydymdeimlad sylweddol a hwy, drwy ddanfon *cheque* o gan' punt i'r drysorfa gynorthwyol.

Fe anwyd Albert Edward, Tywysog Cymru, a'n diweddar deyrn Edward VII., Tachwedd 9, 1841, yr wythfed o dŷ ac o deulu yr Hanoferiaid. Trefnwyd cynllun ei addysg gan un o Farwniaid yr Almaen, gan gadw mewn golwg wrth gwrs y sefyllfa anrhydeddus y bwriedid ef iddo. Treuliodd beth amser yn Mhrifysgol Edinburgh; aeth wedi hyny i Rydychen, ac yn ddiweddarach i Gaergrawnt. Pan oedd yno fe fu farw ei dad, Albert Dda -Albert the Good, a daeth ei addysg ffurfiol i derfyn.

Ar ol hyny, treuliodd rai misoedd yn ngwlad Canaan, y cyntaf o lawer taith a gymerwyd ganddo. Yn yr Almaen y cyfarfyddodd a'r Dywysoges Alexandra o Denmark, â'r hon y syrthiodd mewn cariad a'r ol gweled ei photograph; a'r hon a gymerwyd yn wraig ganddo, er gwell er gwaeth, Mawrth 10, 1863. Bydd gan rai

---

*Dywed y Parch. J. H. Jowett fod perygl i frenhinoedd mawrion gael eu hanwybyddu yn ein gweddiau. Fe gofir am y tlodion, tra mae tuedd i anghofio'r cyfoethogion; fe gofir am y gweiniaid, ond tueddir i anghofio'r cryfion. Fe wneir argraff mwy arnom gan gyfaredd pobl fawrion na chan eu hangenion; ac oherwydd hyny fe geisia'r apostol genym i weddio dros frenhinoedd.

yma'n bresenol heddyw gof byw am y dydd pan yr ymgynullodd Ysgolion Sul plwyf Aberdar at eu gilydd, am y tro cyntaf erioed dybiaf, yn Mharc Fothergill i ddathlu yr amgylchiad. Daeth y Dywysoges yn boblogaidd ar unwaith ac ni chollodd ei phoblogrwydd byth. Cyfansoddodd Tennyson, y bardd breiniol, un o'i ganeuon mwyaf swynol iddi ; a chredaf mai tua'r un amser y cyfansoddodd Ceiriog ei gân boblogaidd :—

Ar Dywysog gwlad y Bryniau—
O boed i'r nefoedd wen,
Roi iddo gyda choron
Ei bendith ar ei ben.

Ardderchog yw'r weddi yn yr ail benill,—

Dyrchafer gorsedd Prydain,
Yn nghariad Duw a dyn ;
Yn agos at orseddfainc
Y Brenin Mawr ei hun.

Gallwn bron restru Ceiriog yn mhlith y proffwydi ar y pwnc hwn,—Gwrandawer,—

Diddymer cofion cad
Rhwng teyrn a theyrn, a gwlad a gwlad,
Yr hen amseroedd gynt ;
Llumanau "Undeb" sydd
Ar dyrau cestyll Prydain rydd,
Yn chwareu yn y gwynt.

Cawsant chwech o blant, ac o'r cyfryw bu farw'r ieuangaf yn ei fabandod, a'r hynaf yn 1892. Dywedir na fu'r Frenines byth yr un peth ar ol marw'r olaf. Yn 1871 bu'r Tywysog mewn perygl oherwydd i'r typhoid ymaflyd ynddo, a'r wlad mewn pryder mawr am beth amser. Am bum mlynedd ar hugain ar ol marw'r Tywysog Cydweddog bu'r Frenines Victoria yn gochelyd bywyd cyhoeddus a syrthiodd llawer o'r dyledswyddau seremoniol ar Dywysog Cymru, a thrwy hyny cafodd y cyfleusdra i ddyfod i adnabyddiaeth o wahanol ddosparthiadau cymdeithas. Bu ei ymweliad a'r India yn 1875—6 yn agoriad llygad iddo mewn llawer ystyr. Lle bynag yr elai yr oedd trwy ei addfwynder a'i dirionwch bob amser yn enill parch ac edmygedd.

Yr oedd o deimladau democrataidd, a theimlai ddyddordeb byw yn mhob peth fyddai'n dal cysylltiad a'r bobl. Yr oedd yn foddlawn dysgu oddiwrth bob math a dosparth o ddynion. Gwerthfawrogai'n arbenig y cyfryw hyny y galwai Kilsby hwy

"YN DDYNION WEDI CODI O DDIM."

O'r dosparth hwnw cyfrifai Joseph Arch, Wil Crooks, a John Burns o rifedi ei gyfeillion. Fe deimlai ddyddordeb yn mhob mudiad a dueddai i ddyrchafu a gwella cyflwr y gweithiwr. Ei awydd mawr bob amser oedd gadael perffaith ryddid i bob dosparth o grefyddwyr. Nid oedd dim yn fwy o bleser iddo na chael tipyn o ymgom a'r Dr. Guinness Rogers neu rywun arall o gynrychiolwyr yr enwadau anghydffurfiol.

Yr oedd yn ei drigeinfed mlwydd oed pan fu farw y Frenines Victoria, Ionawr 22, 1901. Esgynodd i'r orsedd ar adeg dywyll yn hanes ein gwlad. Nid oes amheuaeth na fu y rhyfel yn South Affrica yn flinder yspryd ac yn achos i fyrhau bywyd Victoria. Er byred fu ei deyrnasiad cafodd fyw i weled y cymylau'n diflanu, a Boer a Brython yn cael eu cylymu yn nghyd yn genedl unedig a chyfan, gyda'r unig wahaniaeth, os oes gwahaniaeth hefyd, fod y Boer, os yn bosibl yn fwy brwdfrydig yn ei deyrngarwch na'r Brython.

Mae helbul dydd y coroniad, a'r gohiriad oherwydd clefyd trwm, o fewn cof y rhan fwyaf o honoch. Wedi i'r Brenin wella o'r *appendicitis*, coronwyd ef Awst 9, 1902, yr Archesgob Benson, yn hen ac yn fethiedig iawn, yn gosod y goron ar ei ben. Ar yr adeg rhoddodd y Brenin ddeng mil ar hugain o bunau at "Coronation Dinner" i haner miliwn o bobl dlodion.

Dymuniad y Frenines Victoria oedd iddo gael ei alw yn Frenin

Albert ; ónd nid dyna oedd ei deimlad ef ei hunan. Yn mhen deuddydd ar ol marw Victoria, mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gynghor (Privy Council) fe ddywedodd rywbeth tebyg i hyn,—"O'r braidd y mae eisiau i mi ddywedyd mai fy amcan parhaus fydd i rodio bob amser yn ei llwybrau hi. Wrth ymgymeryd a'r baich trwm sydd yn awr yn disgyn arnaf, yr wyf yn penderfynu hyd eithaf fy ngallu i fod yn benadur cyfreithlawn (constitutional sovereign) yn ystyr fanylaf yr ymadrodd, a chyhyd ag y bydd anadl yn fy nghorff i weithio er daioni a lleshad fy mhobl. Yr wyf wedi penderfynu cael fy adwaen fel Edward, enw y mae chwech o fy hynafiaid wedi ei ddwyn o'r blaen. Wrth wneuthur hyn nid wyf am ddibrisio'r enw Albert, yr hwn a etifeddaf oddiwrth fy anwyl a pharchusaf dad, enwog a doeth, yr hwn trwy gydsyniad cyffredin, ac yn deilwng, a adwaenir wrth yr enw Albert Dda, a'm dymuniad yw, i'w enw ef gael sefyll wrtho ei hun."

Yr oedd y Brenin Edward

YN CASHAU RHYFEL A CHAS CALON.

Gadawodd y Rhyfel a'r Boeriaid ein gwlad ni mewn cyflwr o unigedd, ac ofnid fod Ffrainc a Germany a Rwsia yn gwylied y cyfleusdra i wneuthur ymosodiad arnom yn ein gwendid. Penderfynodd Edward, heb ymyraeth a'r llywodraeth, ond mewn perffaith gydgordiad, i ymosod ar y gwaith o glirio i ffwrdd bob camddealldwriaeth, ac i sicrhau y fath delerau cyfeillgar ag a fyddai'n symud ymaith bob esgus am ryfel. Bydd Edward fyw mewn hanes fel "Edward the Peacemaker."

Yn groes i ddymuniad llawer o grefyddwyr Cymru, carai Edward geffylau a charai redegfeydd ; ond da feallai fydd i ni gofio y ffeiddiai o galon yr elfen gamblo mewn cysylltiad â hwy, ac yn fwy fyth felly ar ol amgylchiad neillduol a gymerodd le mewn *Card Party* a gynelid yn nhŷ boneddwr yn y wlad. Fel un o'r party, cymerodd yntau ran. Cyhuddwyd un o'r party wedi hyny o anonestrwydd. Bu hyny yn achlysur o feirniadaeth lem arno. Teimlodd yn flin iawn o'r herwydd a chyfeiriodd lythyr at yr Archesgob, yn yr hwn y dywedai fod yr ymosodiadau yn chwerw ac yn anghyfiawn ; fod pob math o gamblo yn ffieiddbeth ganddo ef, ac yr edrychai arno fel drwg cenedlaethol digymysg. Feallai y goddefir i mi ychwanegu yn y fan hon nad yw tafodau athrodus clonceiod segur Llundain ddim yn rhai y dylem roi coel o gwbl arnynt. Nid oes fawr amser er y gorfu i Lloyd George osod y gyfraith ar waith er mwyn rhoi taw arnynt. Gwneir y teulu breninol yn fynych yn nod i saethau gwenwynig anghyfiawn. Ebe un awdwr, "Rumour and gossip about royal personages are generally quite fictional." Wedi'r cwbl gweddai i ni gofio nad oedd y Brenin ond dyn, ac fel pob dyn arall yn agored i wendidau a ffaeleddau dynoliaeth. Ond cofier hyn,

Dyn oedd efe ac edrych arno trwy,
Ni welir ei gyffelyb ef byth mwy.

Fel dyn yr oedd yn hoff o Campbell Bannerman. Nid oedd ei fam yn caru Gladstone ; ond yr oedd Edward bob amser yn edmygydd mawr o hono, a phan oedd yn Dywysog Cymru, yr oedd yn un o'r *pall-bearers* yn ei angladd. Fel Brenin nid oedd yn ddyn plaid o gwbl. Mae'r hyn ddywedodd Tennyson am ei dad yn berffaith gywir am dano yntau,

Not swaying to this fashion or to that ;
Not making his place the lawless perch
Of wing'd ambitions.

Fel y dywedwyd yn barod hedduarwr, un yn caru tangnefedd oedd Edward, nid un yn caru rhyfel. Ni fu gan Prydain un llaw mewn rhyfel yn ystod teyrnasiad Edward ; ond fe ddangosodd gymaint o wroldeb a chymaint o allu i gynal heddwch ag a wnaeth eraill i gario'r rhyfel yn mlaen. Ni estynodd derfynau y deyrnas, ond fe'i helpiodd i fod yn

fwy cyfymlynol, i lynu yn fwy wrth ei gilydd, yn fwy cydgordiol, yn fwy ymwybodol o'i chyfundod. Ac wrth wneuthur hyn ni ddarfu iddo ei gosod megys ar binacl ar wahan. Gweithiai ei ddylanwad ef o blaid undeb rhwng teyrnas a theyrnas. Teimlem fod ynddo allu, y gellid dibynu arno mewn adeg o gyfyngder, y byddai o du cymedroldeb. Carai ei wlad, yr oedd yn gwbl ymroddedig i'w buddianau, ac ar yr un pryd nid oedd ei wladgarwch yn galw arno i ymyraeth a hawliau ac iawnderau cenedloedd eraill. Ni ymyrai â llywodraeth ei wlad ei hun, ac a'i pherthynas â gweledydd eraill ; ond teimlem fod yna ddylanwad ar waith fyddai'n dwyn nerth i'w bobl ei hun, ac yn dwyn heddwch a llwyddiant i genedloedd byd.

Gallwn fod yn ddiolchgar am yr help a roddodd a'r parch a enillodd iddo ei hun ac i'w wlad yn mhlith cenedloedd y ddaear. Gwyddom y gwelwn eisiau ei gynghorion doeth a'i wybodaeth aeddfed mewn dyddiau i ddod ; ond nid oes eisiau i ni ofni'r dyfodol nac i siarad yn bryderus fel plant, fel pe byddai Tad ar yr hwn y mae pob peth yn dibynu wedi ei gymeryd oddi arnom. Nid ydym wedi ein gadael heb gynghorwyr ac arweinwyr doeth eto i arwain ac i ysprydoli cenedl rydd o bobl yn gweithio allan eu tynged aruchel gyda'u gilydd, gyda theimlad dwfn o'u cyfrifoldeb i Dduw ac i ddyn. Gallwn felly'n galonog estyn ein groesaw i'r brenin newydd yn ffyddlawn a chyda chwbl hyder a gobaith llawn y bydd iddo droedio yn nghamrau ei dad.

Gwrandewch ar eiriau Archesgob Canterbury :—"Wele ni yma yn sefyll yn mhresenoldeb angeu ; ond i ni, Gristnogion, angeu a lyncwyd mewn bywyd eangach. Ein tristwch cyffredin a'n hadgofia am ein gobaith cyffredin. Codwn uwchlaw'r tristwch i ddiolchgarwch a gweddi.

" Diolchwn. Diolchwn i Dduw am lywodraethwr oedd yn ymroddedig i wasanaeth ei bobl. Diolchwn i Dduw am yr heddwch a'r llwyddiant a nodweddasant deyrnasiad y Brenin Edward. Diolchwn i Dduw am ein dysgu ni eto i weled ei law yn hanes a ffyniant ein cenedl.

"A gweddiwn. Gweddiwn ar Dduw fel yr ydym yn ein tristwch mawr hwn, ar i ni gael bod yn un yn y gwaith a erys o'n blaen ni, yn y frwydr yn erbyn pob peth anheilwng o'n galwedigaeth, fel etifeddion Cristnogol ymerodraeth fawr ; y frwydr yn erbyn hunangarwch a thrachwant a phob amhuredd ; yn erbyn yr yspryd sydd yn galed ac yn halogedig.

" Ymrwymwn o'r newydd, o'r funyd ddifrifol hon, i ymdrech ystyriol a didroi-yn-ol, fel pobl Gristnogol, i fyned rhagom at yr hyn sydd wir a chyfiawn, sydd hawddgar a chanmoladwy, yn mywyd cyhoeddus ac anghyoedd ein pobl, i'r rhai y mae llawer wedi ei roddi, ac oddiwrth y rhai eto y bydd llawer yn cael ei ofyn."

Mae'r brenin wedi marw. Byw fyth fo'r brenin. Y mae brenin Prydain Fawr wedi dyfod yn ddolen gydiol weledig, o'r fath na welodd y byd erioed o'i debyg. Cysylltia ni oll â'n gilydd fel deiliaid yr un llywodraeth fawr, fel dysgyblion yr un Iesu, fel plant i'r un Tad gore. Mae wedi cydio yn nghyd holl deyrnasoedd gwareiddiedig y byd. Gwnawn ein goreu i dynhau y ddolen gydiol hon, fel ag i brysuro'r amser pan y bydd y ddaear a'i thrigolion oll wedi dyfod yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist ef. — R.J.J.

YR EHEDYDD.

(*Buddugol yn Llanarth, 1909.*)

Goreu bynciwr y bencydd,—edn go blaen
Dan gôb lwyd yw'r hedydd ;
Miri'i dôn ym moreu dydd
O fry, fry, wefria fröydd.—*Cledlyn.*

YR IAITH GYMRAEG.

[Darllenwyd o flaen Cymdeithas Gymreig Abertyleri.]

Yn adeg cychwyn y Gymdeithas Gymreig yn Abertyleri, dywedodd ei llywydd cyntaf, Mr. W. D. Lewis Evans, M.A., mai un o symudiadau pwysicaf y ganrif ddiweddaf oedd adfywiad mân genhedloedd dros gyfandir Ewrob.

Amlygai hyn ei hun yn arbenig iawn yn yr adranau Celtaidd, pa rai, sydd fel rheol, yn gymhariaethol fychan mewn rhif a grym; ac yn yr adfywiad hwn haedda "Gwlad y Bryniau" a "Gwlad y Gân" sylw blaenllaw. Nid gwiw disgwyl i'r bywhad hwn fod yn hollol yr un fath o ran ei effaith yn mhob cwrr o'r cyfandir, ac o ran hyny, nid yw yn bwysig yn hyn o nodiadau am ddadblygiad y mân genhedloedd y crybwyllir am danynt. Digon yw dweyd, fod ei effaith wedi ymddangos yn Nghymru ar fonedd a gwreng, a chredwn ei fod wedi bod yn foddion i ddadebru ein cenedlaetholdeb i gryn raddau, ac yr oedd galw am hyn hefyd. Un ffurf a gymerodd oedd yr ysfa hon am bobpeth Cymreig, ac yn arbenig felly am goleddu a meithrin yr iaith Gymraeg.

Gan mai prin yw'r gofod sydd genym i draethu ar bwnc mor eang, nis gwnawn fwy na chyffwrdd ymyl gwisg ein testyn yn wylaidd, a mynegi rhai ffeithiau sydd yn apelio atom yn bersonol am iaith ein tadau —iaith a garwn hyd ein bedd uwchlaw yr un arall. Y mae pobl yr oes hon yn hoff iawn o hen bethau; hen lyfrau, hen ddodrefn, hen gastelli, &c., ac yn mhlith y rhai'n nis ceir llawer o ddim yn hŷn na'r iaith y llefarwn ynddi yn bresenol. Ceisia rai o'n beirdd i ni gredu mai Cymraeg oedd iaith Eden a'r cynddylifiaid, ond yn herwydd mai pobl sydd yn hedfan fry yn nghwmwl dychymyg yw'r dosbarth hwn, rhoddwn iddynt ryddid, ac am ysbaid byr lonyddwch; a thrown ein cyfeiriad at athronwyr a dysgedigion sydd yn ymgripian ar wyneb y ddaear. Dywedant hwy ei bod yn iaith hen; pa mor hen, nis gwyddis gan fod hanes yn methu ei holrhain i'w chychwyn. Yr oll all hanes dilys ac ymddiriedol ddywedyd am dani yw, "yr oedd hi o'm blaen i." Dywed ysgolheigion gwych wrthym, ac nis medrwn eu gwrthddweyd, fod yna neillduolion a phroffion diymwad o'i hynafiaeth, ac yn herwydd hyn, credwn ei bod yn ddyledswydd arnom fod ar ein goreu er cadw yn fyw yr etifeddiaeth deg a drosglwyddwyd i ni gan ein tadau dros gyfnod o gannoedd o flynyddoedd. Haedda ei choleddu genym, yn ol Alun, yn herwydd ei rhagoriaethau: megis, helaethrwydd ei geiriau—cyfaddas at bob achos; ei gallu i hysbysu yr amrywiol amgyffredion a lunir yn y meddwl, yn gywir, yn eglur, ac yn effeithiol; ei gallu i ffurfio geiriau newydd i ateb pob angenrhaid; ei gallu darluniadol, ei symlrwydd, ei ystwythdra, a'i chryfder.

Am lawer iawn o'r nodweddion hyn yr ydym yn ddyledus i feirdd y cyn a'r canol-oesoedd yn arbenig. Hwy fyddent, fel rheol, yn dangos manyldeb neillduol, yn ffinio ar gywreinrwydd bron, er gosod y gair priodol yn yr iawn le, ac os byddai anhawsder yn herwydd absenoldeb gair, byddent yn ddieithriad yn ffurfio gair addas. Mae'r iaith Gymraeg yn caniatau hyn, ac nid oedd, ac nid yw, y beirdd heb wybod hyny. Blin genym orfod cyfaddef nas gellir dweyd yr un peth am werin y dyddiau presenol ac a ddywedwn am y bardd. Os oes eisiau gair yn awr troir i'r iaith Seisneg yn ddigywilydd, a'r canlyniad yw fod ein hiaith yn cael ei hanurddo gan y rhai hyny y buasem yn disgwyl rhoddi iddi y gefnogaeth benaf.

Cofus genym glywed cyfaill yn cael hwyl dda drwy osod allan mewn

dull grymus, sut y mae yn hawdd, hyd yn nod i Sais, i ddeall Cymraeg rhai rhanau o Gymru. Dyma'r engraifft: "Mae Tom Teilwr yn shop y barbwr yn shavo'i wiskers off." Dyna uchaf-bwynt Cymraeg pur, diledryw, wedi ei yru i eithafedd. Trueni mawr onide, na fuasem yn fwy gofalus yn ein ymadrodd. Ond er cyfaddef fod amser yn cyfnewid pob peth, eto i gyd ni effeithiodd treigliadau blynyddoedd aneirif ond ychydig ar Gymreig llenyddol yr oesau. Nodwedd y blynyddau diweddaf hyn yw Seisnigeiddio'r Gymraeg. Nid yw hyn eto ddim amgen nag anrhaith Philistiaeth i'n byd llenyddol. Gresyn na fuasem fel Cymry yn aberthu mwy i gadw yn ddilwgr yr unig iaith a siaredir heddyw yn Ewrob, a arferid oddiar ddechreu y cyfrif Cristionogol.

Y mae awduron Ffrengig a Seisnig a ysgrifenasant ond pedwar neu bum' cant o flynyddau yn ol yn anneallad wy i'r darllenwyr cyffredin presenol; ond y mae iaith Cymry yr un adeg yn para ar lafar gwlad hyd heddyw. Llawer un sydd wedi prophwydo am ganu marwnad i hen iaith y Cymry, ond y mae yn llawen genym feddwl ei bod yn fwy byw heddyw, ac yn cael mwy o sylw yn myd addysg nag erioed o'r blaen. Wrth ddweyd hyn nis medrwn lai na thalu gwarogaeth i'r Wyl fawr Genedlaethol, sef yr Eisteddfod. Cyfaddefwn nad yw hon heb ei diffygion, ond y mae brychau ar wyneb yr haul. Rhoddodd yr Eisteddfod gefnogaeth i'r iaith pan oedd niwl du amheuaeth yn gordoi meddyliau llawer o enwogion ein gwlad, a phan oedd galluoedd y tywyllwch wedi ymrestru yn ei herbyn. "Y mae cenhedloedd wedi byw ac wedi marw," medd Dyfed, "ac y mae eu hieithoedd wedi dystewi am byth, ond y mae'r iaith Gymraeg yn byw ar eu beddau, ac yn canu—

"Mae mod i'n fyw yn fawr ryfeddod
Mewn ffwrneisiau fu mor boeth."

Ac wrth chwilio ei hanes nis medrwn lai na dod i'r un penderfyniad a bardd enwog Nantglyn—"Fod lle i ddirnad nad oes lladd arni."

Llawer sydd wedi ceisio amser terfyn i'w bywyd; ac ambell dro clywir rhai yn dweyd nad ydyw yn werth gwastraffu amser i astudio llenyddiaeth sydd yn rhwym—yn ol eu barn hwy—o gael eu hyrddio i ebargofiant, a hyny cyn bod yn hir. Y fath ffiloreg! Yn ol barn y cyfryw gwell efrydu iaith farw nag iaith fyw. Rhyddid iddynt eu barn. Mynwn ninau yr un hawlfraint, a rhoddwn hi mewn grym a gweithrediad.

Gwelwyd amser yn Nghymru pan nad oedd yn foneddigaidd siarad ond iaith y Saeson. Ond y mae pethau yn cyfnewid, ac yn awr fe welir y teuluoedd mwyaf urddasol yn dysgu yn gyntaf i'w plant iaith gwlad eu genedigol fro. Y mae hyn yn ganmoladwy iawn, ac yn arwyddocaol o draddodiadau goreu y bobl. Os ceir pendefigion ein gwlad i wneud hyn, yna gellir sicrhau y corachod pendefigion i ddilyn yn ei hol.

Ni charwn i chwi ddeall ein bod eisiau i chwi anwybyddu y Saesneg. O, na, dim o'r cyfryw beth, y mae yn rhaid yn yr ardaloedd hyn wrth hon. Golyga ei deall a'i harfer, i ni oll, fara beunyddiol, a myrdd o fanteision eraill. Eto i gyd, wrth ddweyd hyn, nid oes eisiau i Gymro anghofio ei iaith. Os yw Cymro yn priodi Saesnes, ni ddisgwylir iddo anwybyddu ei hen fam anwyl ar ol hyny.

"Heb iaith, heb genedl," sydd arwyddeb gwerth ei chadw mewn cof. O bosibl mai rhan o'r gwirionedd yn unig sydd yn cael ei gyfleu, ond credwn ei fod yn rhan bwysig iawn, yn herwydd fod iaith yn ol ein barn ni yn hanfod i fywyd cenedl. Credwn mai iaith yw ysbryd cenedlaetholdeb, ac yn sicr mae iaith yn un o'r llinynau cryfaf a feddwn er cylymu ac uno cenedl wrth ei gilydd. Yn mhellach y mae yn etifeddiaeth y disgwylir i ni ei throsglwyddo i'r genedlaeth sydd yn codi.—(*Iw barhau*).

MARWGOFION.

RHAGFYR 12, Evan Thomas, Fadfa, Talgareg, yn 60 oed. Claddwyd y Gwener canlynol yn Capelyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, a John Davies, Alltyplaca. Gadawodd briod, pedwar o blant, brawd, a chylch helaeth o berthynasau a chyfeillion i alaru ar ei ol. Mab ydoedd i'r diweddar ac adnabyddus David Thomas, Fadfa. Yr oedd yn un o naw o blant ond bellach nid oes ond un o honynt, sef Mr. James Thomas, Evelench, yn fyw. Dywedai y Parch. John Davies iddo ef ddod i'r angladd er dwyn tystiolaeth i ffyddlondeb yr ymadawedig fel aelod crefyddol yn Alltyplaca tra yn byw yn y gymydogaeth hono. Cafodd eglwys Capelyfadfa ef yn ffyddlon hefyd. Yr oedd yn un o'r diaconiaid ac aelod cymwynasgar. Oddiar ei ddychweliad yn ol i'r Fadfa i fyw, dangosodd ei gydymdeimlad â theuluoedd galar y gymydogaeth drwy ddanfon ceffyl i gludo yr elorgerbyd mewn angladdau. Un o'r ffyddloniaid tawel ydoedd ef, un yn ei sedd yn gyson ac un yn gwneud ei ran yn ddistaw i gario yn mlaen waith yr eglwys. Heddyw mae ei sedd yn wag ac mae y sedd wag yn dweyd wrth eraill "Byddwch ffyddlawn." Hyderwn y ca y priod a'r plant nerth i alaru'n gymedrol, gan gredu mai wedi rhagflaenu yn unig y mae—rhagflaenu i'r wlad lle y cawn gyfarfod eto â'n cyfeillion; a'r wlad yn yr hon—ryw ddydd, y sychir ymaith bob deigr oddiar lygaid plant Duw.

IONAWR 24, yn 4 mlwydd oed, Dewi Watkin Hughes, mab Mr. Evan Hughes, Corner Shop, Dihewid. Dim ond ychydig ddyddiau fu ei gystudd. Yn mis Ebrill diweddaf bu farw ei fam yn 39 mlwydd oed. Claddwyd yn mynwent Capel Dihewyd. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a thraddodwyd y bregeth angladdol ar nos Sul yn nghapel Dihewyd. Nodded y Nefoedd fyddo dros y tad a'r ddau blentyn.

IONAWR 26, wedi cystudd byr, yn 88 mlwydd oed, Margaret Jones, Tydwgi, Llanwnen. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca; a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Perthynai'r ymadawedig i deulu fu'n noddwyr gwresog i'r achos da yn Alltyplaca am o leiaf dair cenedlaeth, a hi yn debygol oedd yr aelod henaf o'r eglwys yn awr. Boed i'w hymadawiad fod yn foddion i dywys rhywrai o'r newydd i lanw ei lle.

CHWEFROR 3, yn 6 wythnos oed, Mary, baban anwyl David a Hannah Evans, Millrose Cottage, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

CHWEFROR 6, yn Cynrig Cottage, Heol y Felin, Aberdar, bu farw William Thomas, diweddar Chemist, yn 77 oed. Ganwyd yr ymadawedig yn Maescwnrig, Cwm Nedd, Gorphenaf 30, 1833, blwyddyn a hynodid, fel y clywsom ef yn dywedyd lawer gwaith gan gynarwch y cynauaf. Dechreuodd y cynauaf llafur ar ddydd ei enedigaeth. Dyn tawel a didwrw iawn oedd Mr. Thomas, siriol a hawddgar, ac mewn parch gan bawb a'i adwaenai. Yr oedd yn aelod selog ac yn ddiacon (yr hynaf) yn yr Hen Dy Cwrdd, ac hyd nes iddo gael ei oddiweddyd gan wendid henaint, cadwai ei gydgynulliad yn rheolaidd. Deallwn ei fod wedi gadael swm fechan yn ei ewyllys at wasanaeth yr eglwys o'r hon y bu mor hir yn aelod. Dydd Iau, y 9fed, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i gladdfa'r teulu yn mynwent eglwys Cwmgwrach. Gwasanaethwyd ar yr achlysur, yn y ty ac yn y fynwent gan y Parch. J. Glynne Davies yn cael ei gynorthwyo gan R. J. J.

CHWEF. 15, yn 70 oed, Elizabeth James, Penllwybr, Llandyssul. Ad-

nabyddid yr ymadawedig yn fwy cyffredin fel "Beti Gweno" am mai Gwenllian ydoedd enw ei mam yr hon breswyliai yn nyffryn Clettwr. Claddwyd yr ymadawedig yn ol ei dymuniad yn Pantdefaid y dydd Gwener dilynol i'w marwolaeth pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

CHWEFROR 18, yn 25 oed, Margaret, merch Evan a Mary Davies, Typoeth, Llandyssul (gynt o Ddolwilym). Merch ieuanc rinweddol oedd Margaret, un a gair da iddi gan ei chydnabod, ac un ffyddlawn iawn gyda'r cwrdd a'r Ysgol Sul yn Capelyfadfa pan yn byw yn Ddolwilwym. Yr oedd ei llwybr i'r capel yn faith a garw ond gwynebai hi bob math o dywydd er bod yn bresenol. Collwyd hi yn gynar—aeth adref cyn canol dydd, ac mae tad, mam, brodyr a chwiorydd, a llu o berthynasau a chyfeillion yn alarus ar ei hol. Collwyd hi ond nid am byth—cael galwad i fyn'd adref wnaeth, ac maes o law, cawn ninau alwad i fyn'd ar ei hol. Claddwyd dydd Iau canlynol yn Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas ac yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins.

CHWEFROR 19, Evan Griffiths, baban Hannah Jones, Fadfa, a'i phriod ieuanc Tom Timothy Jones, Glanyrafon Arms, Talgarreg, yn 6 mis oed. Claddwyd dydd Mawrth canlynol yn Capelyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

UNDEB YSGOLION SUL RHAN UCHAF CEREDIGION. —— Cyfarfu pwyllgor o'r undeb uchod yn Nghapely-groes, Sul, Chwefror 19, er trefnu ar gyfer y gymanfa nesaf. Penderfynwyd i'w chynal dydd Llun, Mai 22ain, yn Mrondeifi, lle y bydd yn cael ei chynal yn sefydlog o hyn allan, yn lle myn'd ar gylch yn ol yr hen drefn. Gobeithio y bydd y cyfnewidiad yn un da, fel ag i greu ymegniad o'r newydd i gael yr wyl yn un deilwng. Pe b'ai ein heglwysi yn teimlo mwy o ddyddordeb yn Iesu Grist a'i efengyl byddai gwell gwedd o lawer ar ein Hysgolion Sabbothol, a chaem deimlo mwy o yspryd y peth byw yn llenwi ein calonau. Ceir gwybod y manylion gan y cynrychiolwyr.—*W. Hefin Williams, Ysg.*

PANTDEFAID. —— Dydd Gwener, Chwefror 24ain, cynhaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei Gwyl Dê flynyddol, pryd y'n bendithiwyd a thywydd dymunol ac amgylchiadau eraill, fel y cafwyd diwrnod wrth ein bodd. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mr. a Mrs. Jones, Garthowen, a chynorthwywyd Mrs. Jones wrth y byrddau gan foneddigesau y gynulleidfa. Daeth llu mawr yn nghyd i gyfranogi o'r wledd gyfoethog, a mwynhaodd pawb eu hunain yn drwyadl. Yn yr hwyr, o dan lywyddiaeth Mr. Jones, cafwyd cyfarfod llenyddol a chystadleuol dyddorol iawn. Awd drwy raglen hir o adrodd a chanu gan y plant ac eraill, ac yr oedd pawb yn eu hwyliau goreu. Nodwedd arbenig oedd yn amlwg yn y cyfarfod oedd y lluaws beirdd lleol ganent, ac nid oes eisiau dweyd mai "Teulu Garthowen" oedd eu testyn. Rhanwyd gwobrwyon gwerthfawr i'r plant am eu ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul. Hyderwn ar i'r un yspryd brwdfrydig ddangoswyd gan bawb y dydd hwn i gael ei ddangos eto yn ystod dyddiau y flwyddyn hon. Ar ol talu y diolchiadau arferol ymwahanwyd ar ol canu y dôn genedlaethol.—*Ewyllysiwr da.*

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Dymunir hysbysu y cynhelir *rehearsals* ar gyfer y Gymanfa

Gerddorol nesaf dydd Sul, Ebrill 2, y naill yn Nghapel-y-groes, am 2 o'r gloch y prydnawn, a'r llall yn Mhantdefaid, am 6 yn yr hwyr. Hydera'r arweinydd, Mr. George Thomas, fod y cantorion wrth y gwaith yn barod, ac y deuant yn nghyd yn ddiffael ar y dydd uchod. Anfoner at yr ysgrifenydd os am ragleni.—*D. Martin Jones, Ysg.*

ABERDAR.——Chwefror 22, yn Festri'r Hen Dy Cwrdd, traddododd y Parch. H. D. Spedding (goruchwyliwr yr *Unitarian Van Mission*) ei ddarlith ddyddorol—"*A Trip to Transylvania*," gyda lluaws o *Lantern Slides* ardderchog o'i waith ei hunan, y rhai a ychwanegent yn fawr at y dyddordeb. Aeth Mr. Spedding i Transylvania gyda lluaws o Undodiaid eraill i uno a'r frawdoliaeth yno i ddathlu pedwar canmlwyddiant genedigaeth yr Undodwr enwog Francis David. Carem yn fawr gael tipyn o hanes y gwr hwn yn YR YMOFYNYDD.

CAPEL-Y-FADFA.——Nos Wener, Rhagfyr 30, cafwyd cyfarfod hwylus o adrodd a chanu yn yr hen gapel, o dan lywyddiaeth fedrus Mr. T. G. Thomas, Factri Crugyreryr.——Nos Wener, Chwefror 17, cynhaliodd yr Ysgol Sul ei chyfarfod adloniadol blynyddol, a chyfarfod yn iawn ydoedd. Llywyddwyd yn hapus iawn gan Mr. J. R. Thomas, ac arweiniwyd gan Mr. E. O. Jenkins. Aeth y plant trwy eu gwaith o adrodd a chanu mewn modd canmoladwy. Cafwyd cystadlu brwd mewn canu, &c., a beirniadwyd i foddlonrwydd pawb gan y cymwynasgar, Mr. D. Davies, Gwarcefel Arms. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd 48 o blant am gadw yr Ysgol Sul.

CEWRI CANRIF XIX YN NGHYMRU.—Pwy oeddynt? Tebyg na chytuna'r darllenydd â mi; ond dyma gais at eu henwi: yn mhlith y Methodistiaid—Lewis Edwards, M.A., D.D.; Annibynwyr—Evan Jones (Ieuan Gwynedd); Wesleyaid——William Rowlands (Gwilym Lleyn); Bedyddwyr—Nefydd neu Mathetes; Undodiaid—John James; Eglwyswyr—Rowland Williams (Cymro mwyaf o honynt oll).—*S.N.S.*

DYFNDEROEDD CARIAD DUW.

Yn moreuddydd y gorphenol
Pan gydganodd ser y nen,
Ac y ganwyd yr holl fydoedd
Disglaer, sydd yn gwau uwchben,
Duw a'u carodd i fodolaeth,
Fel y câr eneidiau byw;
Y maent oll yn dystion oesol
O ddyfnderoedd cariad Duw.

Pan fo'r byd yn gwenu arnaf,
Yn ei harddwch a'i fwynhad,
Mae pob peth o'm cylch yn datgan
Gofal doeth a thirion Dad;
Beth yw'r holl gysuron hyfryd
Sy'n bendithio dynol ryw,
Ond defnynau pêr sy'n tarddu
O ddyfnderoedd cariad Duw!

Pan bwy'n gorwedd yn gystuddiol
Ar fy ngwely, nos a dydd,
A'm llesg enaid yn hiraethu
Am gael myn'd o'i rwymau'n rhydd,
Caf fy nerthu, yn fy ngwendid,
Gan fy nghrêd mai dilys yw,
Y daw cystudd, fel llawenydd,
O ddyfnderoedd cariad Duw.

Pan fo 'meiau fel cymylau,
Yn tristhau fy yspryd llon,
A'm cydwybod yn fy mlino,
Gan euogrwydd dan fy mron,
Yna daw rhyw lais nefolaidd
I gysuro'm calon friw:
Dwed fod noddfa i'r afradlon
Yn nyfnderoedd cariad Duw.

Pan fydd raid i mi ffarwelio,
A phleserau'r ddaear hon,
A'm cyfeillion hoff yn cefnu
Pan gyrhaeddwyf fin y dòn;
Pan y suddaf yn yr afon—
Hyn fy ngobaith penaf yw—
Suddo wnaf i fyw'n dragywydd
Yn nyfnderoedd cariad Duw.

E. CEREDIG JONES.

MILL A THIRLWALL. — Cyfeiria John Stuart Mill yn ei hunan-fywgraffiad at araeth o eiddo Esgob Thirlwall ar "Boblogaeth." Fe ddywed--"y llefarwr wnaeth fwyaf o argraff ar fy meddwl i, er fy mod yn anghytuno bron a phob gair a lefarodd, oedd Thirlwall, yr hanesydd. Ateb oedd ei araeth i un o'r eiddof fi. Cyn iddo lefaru deg brawddeg, gosodais ef i lawr fel y llefarwr gore glywais i erioed ; ac nid wyf hyd heddyw wedi clywed un a osodwn uwchlaw iddo ef." Mewn cyfeiriad at y sylw hwn, fe ddywed Thirlwall—"yr wyf wedi darllen hunangofiant Mill, ac wedi synu yn fawr wrth fyned dros yr hyn a ddywed am danaf fi. Nid wyf yn credu fod y sylw yn peri gogwydd (*bias*) yn fy marn am y gwaith ; er y deallaf fy mod yn meddwl yn well am dano na'i feirniaid. Ond yr wyf erioed wedi ystyried ei fod yn meddu yspryd ardderchog, yspryd un gafodd yr anffawd o gael ei addysgu gan goegddyn o feddwl cul, yr hwn a wrthweithiodd ei alluoedd deallol ar draul y rhai eraill oll, ac eto ni lwyddodd i'w mogi." Dywedir fod Thirlwall yn ieuanc iawn yn darllen Saesneg mor dda, fel y dysgwyd Lladin iddo yn dair blwydd oed, a phan oedd yn bedair gallai ddarllen Groeg gyda'r fath rwyddineb ag oedd yn syndod i bawb a'i clywai.

OS MYN NEB DDYFOD AR FY OL I YMWADED AG EF EI HUN.—Mat. 16 : 24.

Mewn cywilydd 'rwyf yn cofio
Am yr adeg gollais i,
Wrthod grym dy serch a'th gariad,
A dywedyd, mewn ymddygiad,
'R oll i'r byd, a dim i ti.

Ond ni phallodd dy drugaredd,
Cofiaist am fy ngwendid i ;
Daliai'th serch y tywydd garw,
D'wedwn pan yn cofio'th farw,
Rhan i'r byd, a rhan i ti.

Gwelwn dwyll y byd a'i lygredd,
Fynai hudo'm enaid i,
Tithau'n bur fel nef y nefoedd ;
Llefai'm calon mewn dryc-hinoedd,
Llai i'r byd, a mwy i ti.

Uwch na'r nef yw grym dy gariad,
Dyfnach na dyfnderau'r lli ;
Cymer feddiant llwyr o honwyf ;
Dyma'm teimlad byth tra byddwyf,
Dim i'r byd, yr oll i ti.

Y Parch. H. Cernyw Williams,
Corwen.

YMDRECH BYWYD.

"*Why thus longing, thus for ever sighing*," &c.—Harriet Winslow.

Beth yw'r hiraeth, beth yw'r ymgais bythol,
Am y tywyll, anweledig pell ;
Tra mae'r tlws o'th gwmpas oll yn gorwedd,
Yn emynu'n gyson bethau gwell ?

Pe gwrandawent ar ei addysg fwynaidd,
Troai'n hedd dy anesmwythyd blin;
Natur oll gynghora i bob dyn geisio
Llanw yn gyntaf ei gylch bach ei hun.

Nid gweithredoedd fo'n cael clod y dyrfa,
Nid gorchestion fo'n dwyn bydol fri,
Nid merthyrdod chwaith, nid croesau ffrostgar
Roddant hawl ar goron nef i ti.

Trwy dy ddyddiol ymdrech, er bob gymorth,
Troir pob chwerw'n felus rodd dy Dduw,
A thrwy weithio'n ffyddlawn a chalonog,
Cei drwy gywir garu, gywir fyw.

T. C. U.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

. . CYNHELIR . .

CYFARFODYDD CHWARTEROL

yr uchod yn **GELLIONEN**

ar ddyddiau MERCHER ac IAU, EBRILL 5 a 6, 1911.

Pregethwr:—Y Parch. JOHN DAVIES, Alltyplacca.

Estyna Eglwys Gellionen y croesaw gwresocaf i Weinidogion ac eraill i'r Cyfarfodydd hyn. Buasai yn hwylusdod mawr i'r cyfeillion yno pe bae pawb dieithriaid fwriadant fod yn bresenol i ymohebu ag Ysgrifenydd yr Eglwys, Mr. BANOS DAVIES, Grove Road, Pontardawe.

Cynhelir PWYLLGORAU a CHYFARFODYDD PREGETHU ar linellau y drefn arferol.

Ymddengys manylion pellach yn ein nesaf.

T. ARTHUR THOMAS, *Ysgrifenydd.*

Cymdeithas Addysgol y Bobl Ieuainc.

Dymunem gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol tuag at y Gymdeithas uchod—

	£	s.	c.
Mrs. William James, Brynhyfryd, Llandyssul ...	1	1	0
Mr. John Evans, Solicitor, Llandyssul ...	1	1	0
Rev. Arthur Thomas, Llandyssul	0	10	6
Rev. T. Lloyd Jones, Liverpool	1	0	0
L. N. Williams, Esq., J.P., Caecoed, Aberdare...	0	10	6
Rev. R. C. Jones, Ogmore House, Lampeter ...	0	10	6
Rev. John Davies, Alltyplacca	0	10	0

Anfoner pob tanysgrifiadau i'r Trysorydd—MRS. EVANS, Talesin House, Lampeter; neu i'r Ysgrifenydd, y PARCH. R. C. JONES, Lampeter.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.
Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montmery, Esq.

THIS SPACE TO LET.

Apply :—

EDITOR,

"Ymofynydd" Office,

Llandyssul.

A REMOVAL

means something more than the mere shifting of one's possessions from one place to another. It is the time when hidden and unsuspected defects and deficiences come to light, and also the best time for them to be remedied.

New Blinds are almost certain to be wanted. Carpets want cleaning and probably altering, Bedding stands in need of purifying and re-making. Furniture requires polishing and perhaps mending and re-upholstering and so on.

All this work we undertake from the packing of the Goods for removal to the putting of everything into proper condition for its position in the New Home.

This work can be done in several ways, but there is only one "Ben. Evans" way and that's — The Best, which is always the cheapest in the end.

Painting & Decorating. Estimates Free

BEN. EVANS & Co. LTD.

SWANSEA.

Telephone, Central—1015.